OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1339 (Cy.131)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*16 Mai 2006*
Yn dod i rym - -	*24 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17(2), 26(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno mae wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel y mae'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, bu ymgynghoriad agored a thryloyw wrth i'r Rheoliadau hyn gael eu llunio a'u gwerthuso.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) (Diwygio) 2006, a deuant i rym ar 24 Mai 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003

2. Diwygir Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003(**4**) fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd rheoliad 4(2) mewnosoder—

"a byddant yn enwau a ragnodwyd gan y gyfraith at ddibenion paragraff (1).”; a

(b) yn lle'r Atodlen rhodder cynnwys yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p.16; amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Secretary of State" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).

(**4**) O.S. 2003/1635 (Cy.177).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

D. Elis-Thomas
16 Mai 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Rheoliad 2(b)

““YR ATODLEN Rheoliad 4

DYNODIADAU MASNACHOL

1. Yn ddarostyngedig i baragraffau 2 a 3, bydd y dynodiad masnachol ar gyfer unrhyw rywogaeth o bysgod a bennir yng ngholofn 2 o'r Tabl canlynol yn enw a bennir ar gyfer y rhywogaeth honno yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1.

2. Caniateir defnyddio enw arferol ar gyfer unrhyw rywogaeth o bysgod sydd wedi cael eu mygu neu gael eu rhoi drwy broses debyg, onid yw enw'r rhywogaeth yng ngholofn 2 o'r Tabl canlynol yn cael ei ddilyn gan seren. Yn yr achosion hynny rhaid i'r enw a ddefnyddir ar gyfer y bwyd pan fydd y pysgod wedi eu mygu fod naill ai—

(a) yn enw a bennir ar gyfer y rhywogaeth honno yng ngholofn 1 o'r Tabl a enwyd gyda'r geiriau “wedi'i fygu”, “wedi'i mygu” neu “wedi'u mygu” ar ei ôl; neu

(b) ac eithrio yn achos *Salmo Salar* (L.), “eog y Môr Tawel wedi'i fygu”.

3. Ni fydd paragraff 1, o'i ddarllen ynghyd â'r Tabl, yn gymwys i bysgod a reoleiddir gan Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2136/89(**6**) fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1181/2003(**7**) sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer sardîns neu benwaig Mair wedi'u preserfio, neu Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1536/92(**8**) sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer tiwna a bonito wedi'u preserfio.

Colofn 1 *Dynodiad masnachol*	*Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod*
Pysgod môr	
Baracwda	Pob rhywogaeth o *Sphyraena*
Baramwndi	*Lates calcarifer*
Bonito	Pob rhywogaeth o *Sarda*
	Pob rhywogaeth o *Euthynnus*, ac eithrio *Euthynnus (Katsuwonus) pelamis*
	Pob rhywogaeth o *Auxis*
Brithyll y graig *neu* Codyn hir	*Ophiodon elongatus*
Brwyniad	Pob rhywogaeth o'r teulu *Engraulidae*
Brwyniad Conwy *neu* Môr-frithyll *neu* Perl *neu* Gwyniedyn Ebrill	Pob rhywogaeth o *Osmerus*
Cathbysg môr	Pob rhywogaeth o'r teulu *Ariidae*
Cegddu	Pob rhywogaeth o *Merluccius*
	Fel arall, gellir defnyddio'r canlynol
Cegddu'r Penrhyn	*Merluccius capensis*

(**6**) OJ Rhif L212, 22.7.89, t.79.
(**7**) OJ Rhif L165, 3.7.2003, t.17.
(**8**) OJ Rhif L163, 17.6.92, t.1.

Colofn 1 *Dynodiad masnachol*	*Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod*
	Merluccius paradoxus
Cegddu gwyn	*Urophycis tenuis*
Cipiwr	Pob rhywogaeth o'r teulu *Lutjanidae*
	Fel arall, gellir defnyddio'r canlynol
Pysgodyn job	Pob rhywogaeth o *Aphareus*
	Pob rhywogaeth o *Aprion*
	Pob rhywogaeth o *Pristipomoides*
Codyn Ebrill	*Trisopterus minutus*
Codyn llwyd	*Trisopterus luscus*
Corbenfras *neu* Hadog	*Melanogrammus aeglefinus* (L.)
Corbennog	*Sprattus sprattus* (L.)
Cornbig *neu* Pigbysg *neu* Carrai fôr *neu* Môr-nodwydd	*Belone belone*
Chwitlin glas *neu* Celog	*Pollachius virens* (L.)
Chwyrnwr	Pob rhywogaeth o'r teulu *Triglidae*
	Peristedion cataphractum (L.)
Draenog môr oren	*Hoplostethus atlanticus*
Draenogyn môr	*Dicentrarchus labrax* (L.)
Draenogyn môr brych	*Dicentrarchus punctatus*
Draenogyn môr y De	*Paralabrax callaensis*
Draenogyn môr Japan	*Lateolabrax japonicus*
Draenogyn tywod torpedo	*Diplectrum maximum*
Drymiwr	Pob rhywogaeth o'r teulu *Sciaenidae*
	Fel arall, gellir defnyddio'r canlynol
Drymiwr y De	*Argyrosomus hololepidotus*
Drymiwr brenhinol	*Argyrosomus regius*
Grwper	Pob rhywogaeth o *Mycteroperca*
	Pob rhywogaeth o *Epinephelus*
Gweinbysgodyn	*Lepidopus caudatus*
	Aphanopus carbo
Gwrachen	Pob rhywogaeth o'r teulu *Labridae*
Gwyniad môr *neu* Swtan *neu* Chwitlyn gwyn	*Merlangius merlangus* (L.)

Colofn 1 *Dynodiad masnachol*	*Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod*
Heulgi	*Cetorhinus maximus*
Hilsa	*Tenualosa ilisha*
Hoci	*Macruronus novaezelandiae*
Hoci Chile	*Macruronus magellanicus*
Honos	Pob rhywogaeth o *Molva* ac eithrio *Molva dypterygia*
Honos glas	*Molva dypterygia*
Hwylbysgodyn	Pob rhywogaeth o *Istiophorus*
Hyrddyn (llwyd)	Pob rhywogaeth o'r teulu *Mugilidae*
Iâr fôr *neu* Pysgodyn clytsiwr	*Cyclopterus lumpus*
Lleden betral	*Eopsetta jordani*
Lleden Califfornia	*Parophrys vetulus*
Lleden chwithig *neu* Lleden wadn	*Solea solea* (L.)
Lleden dannedd blaenllym	*Atherestes stomias*
Lleden dywod	*Limanda limanda* (L.)
Lleden dywod felen	*Limanda ferruginea*
Lleden dywod y Môr Tawel	*Citharichthys sordidus*
Lleden esgyll hirion	*Glyptocephalus zachirus*
Lleden Fair	Pob rhywogaeth o *Lepidorhombus*
Lleden fannog	*Scophthalmus rhombus* (L.)
Lleden felen	*Limanda aspera*
Lleden fraith	*Paralichthys woolmani*
Lleden fŵ d *neu* Lleden llaid *neu* Lleden ddu	*Platichthys flesus* (L.)
Lleden Ffrengig *neu* Lleden fawr	*Hippoglossus hippoglossus* (L.)
	Hippoglossus stenolepis
Lleden y gaeaf	*Pseudopleuronectes americanus* (Walbaum)
Lleden goch *neu* Lleden frech	*Pleuronectes platessa* (L.)
Lleden gennog	*Hippoglossoides platessoides* (Fabr.)
Lleden y graig	*Lepidopsetta bilineata*
Lleden lefn	*Microstomus kitt* (Walbaum)
Lleden y Môr Tawel	*Microstomus pacificus*
Lleden wrach	*Glyptocephalus cynoglossus* (L.)
Lleden yr Ynys Las	*Reinhardtius hippoglossoides* (Walbaum)
Lledrbysg	*Lichia amia*